Clwb Rygbi Pwllheli

Bu tair gem bwysig yn y mis a aeth heibio ers y Llanw diwethaf. Oherwydd fod y tymor mor wastad, mae gan chwe neu saith tîm uchaf y Cynghrair obaith o ennill eleni.

Dydd Sadwrn cyn y Nadolig roedd Pwllheli'n chwarae oddi cartref yn Nolgellau, a oedd ar frig y Cynghrair. Mae'n debyg mai dyma gem orau Pwllheli hyd yn hyn y tymor yma, am 60 munud o leiaf. Roedd y blaenwyr yn gyrru'n gryf o'r llinellau, a'r olwyr yn creu bylchau. Yn y munudau olaf daeth Dolgellau yn ôl yn gryf wedi i Gareth Wright a James Evans gael eu gyrru i'r gell gosbi. Amddiffynnodd Pwllheli'n gadarn a llwyddo i gadw'r tîm cartref allan ac roeddynt yn haeddu'r fuddugoliaeth.

* * *

Dydd Sadwrn cyntaf y flwyddyn roedd Pwllheli eto oddi cartref, y tro yma ym Methesda, oedd yn gyfartal 8 Phwllheli ar frig y Cynghrair. Mae'r gemau'n galed bob amser yn Nyffryn Ogwen ond roedd Pwllheli'n llawn hyder ar ôl y fuddugoliaeth flaenorol yn Sir Feirionnydd. Roedd y blaenwyr eto'n gryf yn yr hanner cyntaf, ac yn haeddu bod ar y blaen o fwy na dau gais i un; Lee Oliver yn sgorio'r ddau wrth i'r blaenwyr hyrddio o'r llinell. Daeth Bethesda yn ôl yn yr ail hanner gan lawn haeddu'r cais i'w rhoi ar y blaen. Dylai Pwllheli fod wedi ennill y gem yn y munudau olaf wrth hyrddio dros linell gais Bethesda ond, methwyd a rhoi y bêl i lawr a chafodd Bethesda gic gosb .o'r sgrym canlynol. Eiliadau wedyn daeth chwiban olaf y gem. Roedd y siom yn enfawr i dîm Pwllheli ond, ar y cyfan chwaraeodd yr hogiau'n dda yn wyneb amddiffyn garw Bethesda, ac roeddynt yn anffodus i golli.

* * *

Dydd Sadwrn diwethaf daeth cyfle i ad-ennill y patrwm llwyddiannus gyda gem gartref yn erbyn Llandudno. Roedd Bethesda ar brig, Llandudno'n ail a Pwllheli'n drydydd ac, ar ddiwrnod bendigedig o aeaf, fe gafodd Pwllheli fuddugoliaeth enfawr o 54 i 22 gyda'r olwyr yn chwarae'n arbennig o dda. Sgoriodd Carl Sitone dri cais, ac un yr un i Kristoff Lotter, Richard Williams, Mike Adams, Ben Cowper a Gareth Wright. I gwblhau diwrnod da, daeth y newydd fod Bethesda wedi colli oddi cartref i'r Rhyl gan roi Pwllheli ar y cyd ar y brig.

Mae? ail dim hefyd yn llwyddiannus yn rownd gynderfynol Cwpan Gwynedd o hyd a dydd Sadwrn diwethaf yn curo tim Caergybi.

Clwb Pêl-droed Pwllheli

Adroddiad Hanner Tymor 13 Ionawr 2001

I ddechrau cychwyn mae teitl yr erthygl hon yn gam-arweiniol. 0 ran amser mae hi yn hanner tymor ond o ran y nifer o gemau a chwaraewyd mae tipyn o ffordd i fynd cyn i ni gyrraedd yr hanner.

Dros y tri mis diwethaf dim ond pum gwaith mae'r tim cyntaf wedi chwarae a'r gem gafodd yr ail dim yn erbyn Talsarnau ar y 6ed o Ionawr oedd eu gem gyntaf hwy ers chwe wythnos. Fel yr oedd y tywydd gwlyb yn dod i ben fe ddaeth y rhew a'r eira gan arwain at benwythnos arall o gicio sodlau yn hytrach na phêl.

Fodd bynnag er fod y timau ym mhob cynghrair yng Ngogledd Cymru ar ei hôl hi, y newyddion da yn lleol yw fod tim cyntaf Pwllheli, dan arweiniad Merfyn Griffiths, Bryn Roberts a Dylan Jones, yn parhau i fod ar ben Cynghrair Silver Star Gwynedd. Gydag un ar ddeg gem wedi ei chwarae mae'r record yn dangos fod prif dim Pen Llŷn yn ddi-guro hyd yma, wedi ennill deg a chael un gem gyfartal.

Yn y mis diwethaf cafwyd dwy gem oddi cartref a llwyddwyd i gael chwe phwynt.

Yn y gem draddodiadol a gaiff ei chwarae dros dymor y Nadolig teithiodd y tim i'r Oval yng Nghaernatfon ac, er bod perfformiad y tim braidd yn rhydlyd, wedi bod heb gem ers tair wythnos, llwyddwyd i guro'r Cofis o ddwy gôl i ddim.

Nid oedd system gwresogi tanddaearol Deinioien yn medru delio âr rhew a'r eira yr wythnos ganlynol ac felly cafwyd bythefnos o seibiant dros y flwyddyn newydd cyn teithio i Benrhyndeudraeth ar y 6ed.

Mae Clwb Penrhyn ar waelod y Cynghrair ar hyn o bryd ond mae yna rhyw frwdfrydedd arbennig yn amlwg ym mhob gem rhwng Pwllheli a hwy, a chan fod hogiau Pwllheli yn teithio yno heb bedwar o'r sgwad roeddynt yn disgwyl gem anodd.

Cafodd Pwllheli ddechrau da a llwyr reoli y cyfan o'r hanner cyntaf. Gôl Gwion Roberts wedi deng munud roddodd yr ymwelwyr ar y blaen, a 'hat-trick' Peter Griffiths yn eu rhoi mewn sefyllfa gref iawn erbyn hanner amser, pedair gôl i un ar y blaen. Er i Penrhyn ymladd yn galed yn yr ail hanner, digon cyfartal oedd y chwarae a buddugoliaeth o 5 - 2 i Bwllheli oedd y canlyniad gyda Geraint Jones, y capten, yn sgorio y burned gôl i'w dim.

Yn rhyfeddol, er y trafferthion gyda chwarae gemau nid oedd y Cynghrair wedi trefnu gem ar gyfer Pwllheli ar y 13eg, felly caiff y tim wythnos ychwanegol i baratoi ar gyfer un o gemau mawr y tymor ar yr 20fed o Ionawr pan fydd Y Felinheli, yr unig dim di-guro arall yng Nghynghrair Gwynedd, yn ymweld â'r 'Rec'. Byddai buddugoliaeth yn y gem honno yn gam pwysig i Bwllheli yn yr ymdrech i guro Cynghrair Gwynedd a chyrraedd cynghrair uwch.

Cynghrair Gwynedd Silver Star

Deiniolen 2 v Nefyn 4

Mae wynebu Deiniolen ar eu tomen eu hunain yn medru bod yn brofiad anodd tu hwnt. Mae'r cae wedi ei naddu o ochr bryn sy'n golygu bod y gwylwyr a'r cefnogwyr yn cael eu gwasgu'n dynn tu hwnt at ymylon y cae – a medr hyn bron a bod yn drech na sawl tim. Oherwydd gwahanol resymau bu'n rhaid i Nefyn ddefnyddio sawl chwaraewr o'u hail dim bnawn Sadwrn ac edrychai'r rhagolygon yn dywyll – ond, gyda help a chefnogaeth yr 'hen bennau' yn y tim, cafwyd perfformiadau campus gan sawl chwaraewr.

Ymunodd Brian Mathews a'r llinell flaen a bu ef ac Alan Wyn Jones yn creu trafferthion gydol y pnawn i'r tim cartref – ac Alan agorodd y sgorio ar ôl hanner awr pan rwydodd efo'i droed dde. Ychydig cyn hanner amser enillodd brwdfrydedd Brian Mathews hanner cyfle iddo fo'i hun a rhoddodd Nefyn ddwy gôl ar y blaen.

Edrychai fel pe bai'r gem wedi'i hennill pan loriwyd Brian ar ôl ugain munud o'r ail hanner, a chafodd Alan gyfle i agor y bwlch i dair gôl gyda chic o'r smotyn. Ond yna, gyda chwarter awr yn weddill rhwydodd Gareth Jones i Ddeiniolen – a, munud yn ddiweddarach, daeth gôl lwan Jones a hwy o fewn cyrraedd bron. Bu'n rhaid tawelu pethau am ychydig a diolch i John Gwynfor ac Emlyn Hughes, a fu'n gefn ac yn gymorth i hogiau megis Robert Wyn Jones o Lanbedrog, a oedd yn gwneud ei ymddangosiad cyntaf efo Nefyn, fe ddaliodd y gleision eu trwynau ar y blaen a chyda deng munud yn weddill, sgoriodd Brian Mathews ei ail gôl i selio'r fuddugoliaeth.

Da o beth yw gweld y berthynas rhwng tim ieuenctid Bro Enlli a Nefyn yn blodeuo a hogiau megis Robert Wyn yn ennill eu plwyf. Mae Kevin Thomas o Fryncroes wedi hen ennill ei le yn y tim bellach ac edrychwn ymlaen i weld sawl un arall yn eu dilyn.

Caergybi 2 v Nefyn 3

Am yr ail wythnos yn olynol dychwelodd Nefyn gartef yn llwyddiannus ar ôl ennill y triphwynt. Yn gynharach eleni daeth Caergybi i Gae'r Delyn a threchu Nefyn mewn gem gyffrous dros ben. Fodd bynnag, bnawn Sadwrn diwethaf talodd y gleision y pwyth yn ôl sy'n golygu eu bod erbyn hyn mewn safle gyfforddus yng nghanol y Cynghrair.

Agorodd Alan y sgorio ar ôl chwarter awr ond yna anfonwyd John Gwynfor o'r cae oherwydd iddo lawio'r bêl er mwyn arbed gôl. Sgoriodd Caergybi o'r smotyn i unioni'r sgôr. Er eu bod i lawr i ddeg dyn ymladdodd Nefyn yn ddewr gan bwyso a phwyso. Dyfarnwyd cic rydd iddynt o'r tu allan i'r blwch cosbi yn fuan yn yr ail hanner ac arbedodd y gôl-geidwad ond rhedodd y bêl i Jonathan Fosskett ac fe rwydodd yntau. Bu'n rhaid amddiffyn ar ôl hyn ond roedd Emlyn Hughes a Robert Wyn (oedd yn chwarae ei ail gem) yn gewri yn y cefn. Ymladdodd Brian Mathews am bob pêl er mwyn ysgafnhau'r baich ar yr amddiffynwyr ond, gyda thwarter awr yn weddill, daeth Caergybi yn gyfattal.

Gyda dim ond deg dyn byddai'r rheolwr, Raymond Cotgrove, wedi bodloni ar gêm gyfartal ond pwysodd y gleision yn drwm gan ddangos calon a phenderfyniad a choronodd Sion Williams bnawn campus pan sgoriodd y gôl a enillodd y gem efo pum munud yn weddill.

Erbyn hyn mae tim Nefyn yn gymysgfa o hogiau ifanc a 'hen bennau' profiadol ac yn amlwg, mae Raymond y gofalwr – ac Alan Wyn ei gynorthwy-ydd ar y cae, yn tynnu'r gorau allan o'r garfan gyfan.

NEUADD HUGHES THOMAS
YSGOL BOTWNNOG

Chwefror 14eg, 2001, am 7.30

CYNGERDD

yng nghwmni

DILWYN MORGAN
(Arweinydd)
CÔR EIFIONYDD
EILIR JONES
JOHN AC ALUN
HEATHER JONES

Mynediad: £4, Plant £2
Tocynnau o'r Ysgol neu Llŷn Lân
Yr elw i'r Gymdeithas Rieni